**Y Tim Amlddisgyblaethol**

Cydlynydd Gofal MND

Ymgynghorwyr Arbenigol

Nyrses Arbenigol

Therapydd Galwadigaethol

Therapydd Iaith a Lleferydd

Ffisiotherapydd

Nyrsus Cymunedol

Dietegydd

Ysgrifenyddes Feddygol

Cymdeithas MND

Arbenigwyr Anadlol

Gofal lliniarol a thim Hosbis

**Beth yw Cydlynu gofal?**
Nod cydlynu gofal yw sicrhau fod unrhyw berson sy'n byw neu wedi eu heffeithio a chlefyd motor niwron yng Ngogledd Cymru yn derbyn gofal o ansawdd uchel sydd wedi ei gydlynu yn gyson. Bydd bob person sydd a diagnosis o MND yn cael enw a rhif cyswllt Cydlynydd MND perthnasol a fydd yn bwynt cyswllt i'r person sy'n byw gyda'r afiechyd ynghyd a chyswllt i'w teulu a gofalwyr.

**Ein Rôl yn eich gofal**
Fel arfer bydd pobl sy'n byw gyda MND yn dod i gyswllt gyda nifer o bobl broffesiynol o faes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r bobl yma yn cael eu hadnabod gyda'i gilydd fel Tîm Amlddisgyblaethol neu MDT. Gall hyn weithiau fod yn gymhleth a pheri dryswch am rôl y gwahanol bobl sy'n rhoi y gofal. Felly, rydym yn darparu un pwynt cyswllt i gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Bydd y person yma yn rhoi cefnogaeth, yn rhannu canllawiau ac yn cysylltu gyda phawb sy'n gysylltiedig gyda'r claf i gydlynu'r gofal ac felly lleihau'r effaith ar y person a'u teulu.

**Rhannu Gwybodaeth**
Unwaith y mis bydd y Tîm Amlddisgyblaethol yn cyfarfod i drafod gofal pobl sydd yn hysbys i'r tîm. Mae'r wybodaeth a rannir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol ac ar sail angen gwybod. Bydd ychydig o'r wybodaeth efallai yn cael ei gadw ar fasdata diogel i'w ddefnyddio mewn archwiliad ystadegau. Os ydych ag unrhyw bryder ynglŷn a'r rhannu gwybodaeth a fuasech mor garedig a thrafod gydag eich Cydlynydd Gofal a fydd yn hapus i ateb unrhyw gwestiwn.